



**Cyngor Sir Powys
Neuadd y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG**

31 Rhagfyr 2020

Annwyl Riant / Gofalwr,

Mae tymor newydd y Gwanwyn bron ar ein gwarthaf ac ar ôl ystyried yn ofalus gallwn nawr gadarnhau trefniadau'r cyngor ar gyfer dychwelyd i leoliadau ysgol ar ôl gwyliau'r Nadolig.

Penderfynwyd y bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ddydd Mercher, 6 Ionawr fel y cynlluniwyd, gyda mân newidiadau ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 10 ac uwch.

Bydd holl staff yr ysgol yn dychwelyd i'r ysgol ar gyfer HMS a diwrnodau cynllunio a pharatoi ddydd Llun 4 a dydd Mawrth 5 Ionawr.

Bydd y diwrnodau hyn ar gyfer staff yn unig i roi'r cyfle i ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar adolygu eu hasesiadau risg, eu prosesau a'u systemau i wneud yn siwr y gallant groesawu dysgwyr yn ôl yn ddiogel.

Ar Ddydd Mercher 6 Ionawr, bydd pob disgybl cynradd a dysgwyr ym mlynyddoedd 7, 8 a 9 yn dychwelyd i'r ysgol fel y cynlluniwyd.

Ni fydd disgyblion ym mlynyddoedd 10, 11, 12 a 13 yn dychwelyd fel y cynlluniwyd ond yn hytrach byddant yn dechrau dysgu cyfunol o 6 Ionawr. Bydd y dysgwyr hyn yn dychwelyd i'r ysgol ar 11 Ionawr oni bai ein bod yn cael ein cynghori'n wahanol rhwng nawr a'r pryd hynny.

Cytunwyd i ohirio dyddiad dychwelyd y grŵp hwn o ddisgyblion yng ngoleuni'r canllawiau diweddaraf a'r cyfyngiadau haen 4 yng Nghymru.

Rydym yn dal i fod yng nghrafangau'r pandemig hwn felly dylai rhieni barhau i fod ar eu gwyliaidwriaeth am y coronafeirws ac i gadw plant sâl i ffwrdd o leoliadau'r ysgol a'r blynyddoedd cynnar, hyd yn oed os yw'r symptomau'n ysgafn.

Rydym yn annog pob teulu i ddilyn y cyngor diweddaraf fel y gall ein hysgolion cael dechreuad da ddydd Mercher 6 Ionawr 2021 ac i fod mor ddiogel â phosibl.

Hoffem ddymuno blwyddyn newydd dda i bawb ac edrychwn ymlaen at weld plant a phobl ifanc nôl yn ein hysgolion ym mis Ionawr.

Yn gywir,

Yn agored a blaengar - Open and enterprising

www.powys.gov.uk

Cyngh. Phyl Davies
Aelod y Cabinet ar faterion Addysg ac Eiddo

Geraint Rees
Arweinydd Strategol dros Addysg

Lynette Lovell
Prif Swyddog Addysg Dros Dro